**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

**Cyflwyniad i Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**24 Ebrill 2002**

**John Andrews – Cadeirydd**

**Gary Brace - Prif Weithredwr**

## CYD-DESTUN

- daeth y Cyngor i fodolaeth ym Medi 2000
- adnabyddiaeth athrawon
- perthynas a AALl, undebau athrawon a darparwyr HACA
- cefnogaeth oddi wrth y Cynulliad

## EIN AMCANION

**Amcan 1**: darparu llais annibynnol, cynrychioliadol

ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru

**Amcan 2**: codi statws addysgu fel proffesiwn

**Amcan 3**: cynnal a hyrwyddo'r safonau ymddwyn ac arfer proffesiynol uchaf posibl

**Amcan 4**: darparu systemau cyllid, personél a gweinyddol effeithiol, effeithlon a chadarn sy'n cefnogi cyflenwi amcanion y Cyngor

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

### SWYDDOGAETHAU RHEOLI

- cofrestrwyd 38,200 o athrawon cymwys, gan gynnwys 1,700 o athrawon newydd gymhwyso, ym Medi 2001;
- cytunwyd ar fersiwn cyntaf y Côd Proffesiynol cyntaf ar gyfer Athrawon yng Nghymru;
- cytunwyd y Trefniadau a Rheolau Disgyblu er mwyn trin achosion o gamymddygiad neu anghymhwysedd proffesiynol difrifol, ac ymchwiliwyd i nifer bychain o achosion

### SWYDDOGAETHAU YMGYNGHOROL

- datblygwyd y darn gyntaf o gyngor i'r Cynulliad ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) athrawon – *"Datblygiad Proffesiynol Parhaus: Hawl i bawb" ;*
- gweinyddwyd £1.2m o nawdd i gynnal cynlluniau peilot ar gyfer DPP i unigolion a'u gwerthuso, mis Medi 01 – mis Mawrth 02. Mae 1,400 o athrawon a dros chwarter o ysgolion Cymru wedi elwa;

- gwnaed arolwg o holl ysgolion uwchradd ar faterion recriwtio. Cafwyd ymateb gan 73% a rhoddwyd adroddiad o'r canlyniadau ac argymelliadau i'r Cynulliad ym mis Rhagfyr 2001;
- cyhoeddwyd y Crynodeb o Ystadegau cyntaf o'r Gofrestr gan s proffil o rhyw ac oedran y proffesiwn;
- cyflwynwyd ymateb ar ran y proffesiwn i ymgynghoriadau'r Cynulliad ar ddatblygiad proffesiynol cynnar, rheoli perfformiad, cynllun datblygiad cyflym athrawon, tablau perfformiad ysgolion uwchradd ac *"Y Wlad sy'n Dysgu"*

## GWAITH I'R DYFODOL

*(Cynllun Corfforaethol 2002-05, Cynllun Gweithredol*

*2002-03)*

Meysydd gwaith allweddol:

- datblygu a chyflwyno cyngor pellach ar weithredu'r hawl i DPP i bob athro gan gynnwys nawdd, achrediad a rôl HACA;
- gweinyddu cynllun £5miliwn i barhau â'r cynllun peilot a gwerthuso DPP gyda 4000 o athrawon unigol ac ysgolion, mis Ebrill 2002 – mis Mawrth 2003;

- ymgymryd ag arolwg o faterion recriwtio a chadw athrawon yn ysgolion cynradd ac uwchradd a datblygu cyngor ar strategaethau ac atebion erbyn Mawrth 2003;
- parhau i gynnal a datblygu'r Gofrestr fel ffynhonnell manwl gywir o wybodaeth gan gynnwys cyhoeddi Crynodeb o Ystadegau blynyddol;
- cyfrannu at ddatblygu rhaglen o sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar ar gyfer athrawon newydd;
- ***gweinyddu swyddogaethau disgyblu'r Cyngor*** â thegwch ac yn unol â threfniadau gosod;
- cynllunio ar gyfer gweithredu elfennau o'r Bil Addysg a fydd efallai yn rhoi cyfrifoldebau ychwanegol i CyngACC;
- parhau i ddatblygu polisïau mewnol er mwyn cael bod yn gorff effeithiol sy'n gwerthfawrogi unigolion, gan gynnwys ennill statws *"Buddsoddwr mewn Pobl"*

## MATERION ALLWEDDOL

### DPP

- mae angen troi "Egwyddorion hawliau" yn wirionedd ymarferol trwy gytundeb cynnar ar fframwaith a hawliau DPP;
- bydd rheoli perfformiad yn cynyddu'r gofyn am gyfleoedd DPP a bydd angen adnoddau newydd digonol;
- hawl i DPP unigol i bob athro, wedi'i gefnogi gan adnoddau digonol erbyn mis Medi 2003, gan gynnwys dull cyllido addas;
- trafodaeth trylwyr o faterion fel bod y system yn llwyr weithredol erbyn 2007.

### Recriwtio

- angen canolbwyntio ar strategaethau ac atebion i'w gweithredu gan yr holl bartneriaid – Llywodraeth y Cynulliad, ELWa, HEFCW,TTA, AAU, AALl, undebau, Estyn a CyngACC;
- ffocws arolwg Cyfrifiad Ysgolion y Cynulliad – sut y gellir ei ymestyn er mwyn cael gwybodaeth mesurol ehangach ar recriwtio i swyddi mewn ysgolion?

**Cofrestru**

- cofrestru athrawon â TAR (AB) o ystyried y continwwm 14-19 a threfniadau nawdd newydd ar gyfer chweched ddosbarthiadau.